NEWYDDLEN CWLWM – TYMOR YR HYDREF 2021

# cwlwm



# Croeso i Newyddlen Cwlwm ar gyfer Tymor yr Hydref ble ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.

Yn y newyddlen yma, rhoddir sylw arbennig i dynnu sylw at fanteision a gwerth lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig (neu'r rhai sy'n gweithio tuag at gofrestru).  Yn awr yn fwy nag erioed, i gefnogi'r economi ac iechyd meddwl a gwydnwch plant drwy gymdeithasu a chwarae, mae angen inni gefnogi a hyrwyddo gofal plant cofrestredig yn lle dewisiadau anghofrestredig.

Gwyddom nad yw 30% o rieni a gofalwyr yn gwybod am gofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu'n ei ddeall (Arolwg Rhieni, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 2021). Mae lleoliadau cofrestredig AGC yn gweithio'n galed i roi sicrwydd i deuluoedd ac eraill drwy fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed. Maent yn gwneud hyn er enghraifft drwy gyflogi a chadw staff â chymwysterau addas, cynnal cymarebau oedolion: plant llym, defnyddio lleoliadau cofrestradwy a chadw at bolisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant a sicrhau bod darpariaeth o ansawdd yn cael ei chynnig.  Mae cofrestriad AGC yn sicrhau bod darparwyr gofal plant a gwaith chwarae yn atebol yn gyfreithiol am y gofal y maent yn ei ddarparu i blant.



Fel partneriaid Cwlwm, rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo manteision lleoliadau cofrestredig AGC, gan weithio'n agos gydag AGC, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Mae gan leoliadau rôl hefyd o ran helpu rhieni i ddeall manteision gofal sydd wedi ei gofrestru ag AGC, fel y gellir gwneud dewisiadau gofal plant gwybodus. Rydym yn gwybod am y budd i blant a gynigir gan leoliadau gofal plant sydd wedi ei gofrestru ag AGC; lleoliadau sydd â staff cymwysedig sy'n angerddol am yr hyn y maent yn ei wneud. Gwnewch yn siŵr bod eich cymuned yn gwybod am y manteision hyn hefyd! Mae marchnata'n ganolog i lwyddiant unrhyw fusnes, a chyda'r hinsawdd economaidd sy'n esblygu o hyd, newidiadau i batrymau gwaith a chystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr gofal anghofrestredig, mae'n hanfodol sicrhau bod gwybodaeth am y cyfleoedd a'r profiadau chwarae gwych a gynigiwch i blant yn cael eu lledaenu i ddarpar defnyddwyr gwasanaeth. Dylai lleoliadau gofal plant hyrwyddo dangosyddion ansawdd yn eang, gan gynnwys cofrestriadau AGC, cymwysterau a phrofiad staff, amseroedd agor estynedig, tystiolaethau gan blant a rhieni/gofalwyr a phwyntiau gwerthu unigryw, gan gynnwys unrhyw gynlluniau ansawdd sydd wedi'u cyflawni. Yn ogystal â chyflawni a chadw cofrestriad AGC, dylai lleoliadau hefyd sicrhau eu bod wedi cofrestru ar gyfer, ac yn hyrwyddo, cynlluniau cyllido gofal plant megis y Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth a'r elfen gofal plant o gredydau treth gwaith/credyd cynhwysol.

Fel Cwlwm, rydym yn mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o leoliadau cofrestredig fel y dewis gorau ar gyfer gofal plant. Felly, rydym yn galw ar bob darllenydd, boed yn rhieni, gofalwyr, lleoliadau neu ysgolion i rannu'r newyddlen yma a'r taflenni a sicrhau mai'r defnydd o ofal plant cofrestredig yw'r dewis cyntaf, yn wir, yr unig ddewis!

# CYNNWYS:

1. Taflenni Buddion Gofal Plant Cofrestredig

1.1 Buddion Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae

1.2 Buddion Cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ar Safleoedd Ysgol

1.3 Pam Dewis Gofal Plant Cofrestredig? - I Rieni/ Gofalwyr

2. Astudiaethau Achos yn arddangos buddion Gofal Plant Cofrestredig

3. Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol Newydd

4. Canllawiau Iechyd Chyoeddus Cymru ar Reoli ac Atal Heintiau a'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV)

5. Cymorth Ychwanegol – Dolenni Defnyddiol

# 1 Gofal Plant Cofretredig

## Buddion Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i **Leoliadau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae.**

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** ar ran Llywodraeth Cymru yn cofrestru, rheoleiddio, archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch leoliadau gofal plant a gwaith chwarae. Os yw'r lleoliad yn rhedeg am dros 2 awr y dydd (gan gynnwys sesiynau rhanedig os yw'r darparwyr yn cael eu cyflogi gan yr un cyflogwr neu bwyllgor gwirfoddol) neu am chwe diwrnod neu fwy mewn blwyddyn galendr (i blant hyd at 12 mlwydd oed), rhaid iddi yn y rhan fwyaf o amgylchiadau yn ôl y gyfraith, fod wedi ei chofrestru gydag AGC oni bai ei bod yn dod o dan y rheoliadau eithriadau. Gall lleoliadau gofal plant sydd wedi eu cofrestru, arddangos eu Tystysgrif Gofrestru, a cheir ragor o wybodaeth am ddod o hyd i leoliad gofal plant addas drwy ymweld â **Dewch o hyd i wasanaeth gofal | Arolygiaeth Gofal Cymru**.

## Pam ei bod yn bwysig i chi gofrestru gydag AGC?

### Sicrwydd ansawdd i rieni/gofalwyr



Mae nifer o wahanol fathau o leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae ar gael i blant, rhieni/gofalwyr ddewis ohonynt. Gallwch chi roi tawelwch meddwl iddynt eich bod yn cynnig gofal plant o ansawdd drwy fodloni'r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir** i blant hyd at 12 oed. Gallwch ddewis os ydych am arddangos eich Tystysgrif Gofrestru AGC. Gall rhieni/gofalwyr hefyd gael mynediad at eich adroddiadau archwilio i wneud dewisiadau gwybodus dros eu plant.

### Yn annog gwell canlyniadau i blant

Mae lleoliadau sydd wedi cofrestru ag AGC yn rhoi cyfleodd chwarae a dysgu gwerthfawr i blant, gan eu helpu i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau newydd. Mae mynychu lleoliad gofal plant o ansawdd yn cael dylanwad sylweddol a chadarnhaol ar ddatblygiad plentyn.

### Cynnig hyblygrwydd



Gallwch fodloni yn well anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio neu'n hyfforddi, gan y gallwch agor am gyfnod hirach a darparu gwasanaeth hyblyg. Gallai hyn gynnwys sesiynau diwrnod llawn, gofal sesiynol, clwb brecwast, gofal cofleidiol, cyfleusterau crèche, gofal allysgol a gofal gwyliau a hyd yn oed gyda'r nos, penwythnosau a gofal dros nos.

### Ennyn hyder

Gall teuluoedd, cymunedau, ysgolion ac eraill fod yn hyderus eich bod yn darparu gofal plant o ansawdd sy'n ysgogi'r plant. Mae cofrestru'n ategu at eich enw da ac yn codi'ch proffil.

### Effaith gynaliadwyol

Gallwch helpu rhieni/gofalwyr i gael cymorth i **dalu ffioedd** (e.e. Gofal Plant Di-dreth) a fydd yn rhoi hwb i'ch ffigurau mynychu ac incwm. Gall hefyd fod cyfleoedd i chi gael mynediad at gyllid er mwyn ymestyn neu gynnal darpariaeth gofal plant trwy Awdurdodau Lleol, er enghraifft, y **Cynnig Gofal Plant** (30 awr o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar a ariennir) a mwynhau hyrwyddiad am ddim trwy eu **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** neu **Dewis Cymru**, sy'n rhannu gwybodaeth am ofal plant cofrestredig gyda rhieni/gofalwyr sydd â diddordeb.

### Staff hyfforddedig a chymwysedig

Mae rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi staff o ansawdd a bydd eich staff:

- â chymwysterau gofal plant a gwaith chwarae perthnasol a hyfforddiant arall megis cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu
- wedi derbyn gwiriadau cyflogaeth trwyadl (yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriadau DBS) a geirdaon)
- yn gweithredu'n unol â chymarebau oedolyn: plant

Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i rieni.

### Gofal plant rhatach



I wneud eich ffioedd yn **fwy fforddiadwy** i'r rhieni/gofalwyr sy'n gymwys, gallwch gofrestru ar gyfer:

- Gofal Plant Di-dreth (sy'n galluogi rhieni/gofalwyr sy'n gweithio i gael gostyngiad o 20% mewn ffioedd)
- Y **Cynnig Gofal Plant** (sy'n galluogi rhieni/gofalwyr plant 3-4 blwydd oed sydd mewn gwaith i gael mynediad at 30 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu)
- Dechrau'n Deg ac Addysg Blynyddoedd Cynnar mewn ardaloedd cymwys
- Talebau Gofal Plant (ddim ar gael bellach i geisiadau newydd) ac
- Yr elfen ofal plant o Gredydau Treth/Gredydau Cynhwysol

### Cydnabod anghenion teuluoedd

Gallwch roi'r sicrwydd i rieni/gofalwyr bod eu plant yn derbyn gofal plant o ansawdd. Anogir plant sy'n mynychu lleoliadau i gyfrannu eu syniadau gan wybod y caiff eu safbwyntiau wrandawiad gan staff, ac y gallant chwilota, cael eu herio a chael hwyl drwy chwarae.

# Buddion Cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) **ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ar Safleoedd Ysgol.**

Wrth i'r angen am ofal plant o gwmpas y diwrnod ysgol dyfu, mae nifer o leoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae yn gweithredu o safleoedd ysgol neu'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan ysgolion er mwyn bodloni anghenion eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ran Llywodraeth Cymru yn cofrestru, rheoleiddio, archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch leoliadau gofal plant a gwaith chwarae. Os yw'r lleoliad yn rhedeg am dros 2 awr y dydd (gan gynnwys sesiynau rhanedig os yw'r darparwyr yn cael eu cyflogi gan yr un cyflogwr neu bwyllgor gwirfoddol) neu am chwe diwrnod neu fwy mewn blwyddyn galendr (i blant hyd at 12 mlwydd oed), rhaid iddi yn y rhan fwyaf o amgylchiadau yn ôl y gyfraith, fod wedi ei chofrestru gydag AGC oni bai ei bod yn dod o dan y rheoliadau eithriadau. Gall lleoliadau gofal plant sydd wedi eu cofrestru, arddangos eu Tystysgrif Gofrestru, a cheir ragor o wybodaeth am ddod o hyd i leoliad gofal plant addas drwy ymweld â **Dewch o hyd i wasanaeth gofal | Arolygiaeth Gofal Cymru.**



## Manteision cofrestru ag AGC ar gyfer lleoliad gofal plant ar safleoedd ysgolion:

### Sicrwydd ansawdd

Bod lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r **rheoliadau gofal plant.** Gall rhieni/gofalwyr gyrchu adroddiadau archwiliadau lleoliadau gofal plant er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus am ofal i'w plant. Estyn yw'r arolygiaeth sy'n gyfrifol am arolygu addysg mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae gofal plant cofrestredig mewn lleoliadau nas cynhelir ac sy'n darparu addysg gynnar yn cael eu harchwilio ar y cyd gan AGC ac Estyn.

### Anogir gwell canlyniadau i blant

Wrth alluogi teuluoedd i weithio neu hyfforddi gall lleoliadau gofal plant helpu i **ryddhau teuluoedd o afael tlodi**. Mae gofal plant o ansawdd yn darparu cyfleoedd **gwerthfawr i chwarae a dysgu** a gallant fod o fudd mawr i ddatblygiad plant, yn enwedig rhai o gefndiroedd dan anfantais. Mae ymchwil yn dangos bod buddion ychwanegol, megis gwell sgiliau cymdeithasol, ymddygiad, presenoldeb yn yr ysgol a bod y plant yn teimlo'n hapusach yn yr ysgol. Ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae plant yng Nghylchoedd Meithrin yn cael eu trochi yn y Gymraeg o 2 oed ymlaen, ac yn datblygu dealltwriaeth a sylfaen i'r iaith cyn dechrau yn yr ysgol.

### Cynigir hyblygrwydd

Gall lleoliadau gofal plant cofrestredig fod ar agor am gyfnodau **hirach** a chynnig gofal cyn-ysgol, gofal cofleidiol, clybiau allysgol a gofal gwyliau.

### Ysgogir hyder

Gall ysgolion, teuluoedd a chymunedau fod yn hyderus o **ofal plant o ansawdd sy'n ysgogi'r plant**; gan wella **enw da** eich ysgol a denu teuluoedd newydd.

### Cynaliadwyedd

Gall rhieni/gofalwyr gymwys, (h.y. sy'n gweithio) gyrchu cymorth gyda ffioedd gofal plant (e.e. Gofal Plant Di-dreth) sydd, yn ei dro, yn gymorth i gynaliadwyedd y clwb ac yn cynnig parhad yn y gofal i deuluoedd a chymunedau.

### Staff hyfforddedig a chymwysedig

Bydd gan y staff **cymwysterau** gofal plant neu waith chwarae perthnasol; byddant wedi eu **hyfforddi** mewn cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu, ac wedi ymgymryd â **gwiriadau cyflogaeth trwyadl** (yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a rhaid iddynt lynu at **gymarebau oedolyn: plentyn llym**. Mae hyn yn sicrhau fod gan leoliadau gofal plant a gwaith chwarae staff addas i reoli lleoliadau gofal plant y tu allan i'r diwrnod ysgol, pan fydd aelodau eraill o'r staff dysgu efallai wedi gadael adeilad yr ysgol.

### Gofal plant fforddiadwy

Mae ffioedd yn fwy fforddiadwy pan fydd lleoliadau gofal plant cofrestredig yn gallu cynnig Gofal Plant Di-dreth (gostyngiad gwirioneddol o 20% yn y ffioedd), Y Cynnig Gofal Plant (gofal plant wedi ei ariannu i rieni plant 3-4 blwydd oed sy'n gweithio), neu'r **elfen ofal plant** o Gredydau Treth/Credydau Cynhwysol, os yw rhieni/gofalwyr yn gymwys.

### Cydnabyddir anghenion teuluoedd.

Gallwch sicrhau rhieni/gofalwyr y caent ofal o safon i'w plant. Anogir plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant o safon i gyfrannu eu syniadau ac maent yn gwybod y bydd staff yn gwrando ar eu barn ac y gallant archwilio, cael eu herio a chael hwyl trwy chwarae.







# Pam Dewis Gofal Plant Cofrestredig?
# - I Rieni/Gofalwyr

Fel rhieni/gofalwyr, rydych yn dibynnu ar ofal plant i'ch galluogi i weithio neu hyfforddi, boed yn Glybiau Brecwast, Clybiau Ôl Ysgol, Clybiau Gwyliau, cynlluniau chwarae, gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin neu gefnogaeth gan aelodau o'r teulu.

**A wyddech chi** fod rhai o'r darpariaethau hyn wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)? AGC yw'r unig **Gorff Rheoleiddiol** yng Nghymru sy'n archwilio lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ac yn gwirio eu bod yn bodloni'r gofynion sy'n cael eu gosod yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed yn unol â'r Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

## Mae defnyddio Darparydd Gofal Plant Cofrestredig sydd wedi cofrestru ag AGC yn golygu:



- Gall ffioedd fod yn fwy fforddiadwy, a gellir lleoliadau cofrestredig cynnig cynlluniau megis **Gofal Plant Di-dreth** (sy'n cynnig gostyngiad o 20% mewn ffioedd i rieni/ gofalwyr sy'n gweithio); Y Cynnig Gofal Plant (sy'n galluogi rhieni/ gofalwyr plant 3-4 blwydd oed sy'n gweithio i gael 30 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu); a'r elfen **ofal plant o Gredydau Treth/ Credydau Cynhwysfawr.**



- Mae'r lleoliad yn cadw at gymarebau caeth rhwng oedolion a phlant.
- Archwilir y lleoliad yn erbyn Fframwiath Arolygu AGC o fewn y 4 thema graidd: Yr Amgylchedd, Lles, Gofal a Datblygiad ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu.
- Mae gan y lleoliad **bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr** yn eu lle sy'n sicrhau **amgylchedd diogel o ansawdd** i'ch plentyn / plant.
- Mae'r rhai sy'n gweithio yn y lleoliad yn cael eu gwirio a'u hyfforddi'n addas - mae hyn yn cynnwys gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd gan y lleoliad nifer priodol o staff wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn y lleoliad yn cwrdd â'r gofynion cymhwyster ac yn deall pwysigrwydd **dysgu trwy chwarae** a sut i gefnogi dysgu a datblygiad plant yn effeithiol.



- Gall Darparwyr Cofrestredig gynnig gofal plant mwy hyblyg i ddiwallu'ch anghenion yn well o gymharu â lleoliad anghofrestredig.
- Gellir dod o hyd i Adroddiadau Archwiliadau AGC ar-lein ac maent yn ddefnyddiol (https://arolygiaethgofal.cymru/dod-o-hyd-i-wasanaeth-gofal) wrth ichi ddewis gofal plant.

## Sut i ganfod a yw'ch Lleoliad Gofal Plant wedi ei gofrestru gydag AGC?

- Bydd gan Leoliadau Cofrestredig Rhif Cofrestru Unigryw gan AGC wedi ei arddangos ar eu tystysgrif cofrestru
- Gallwch chwilio am Leoliadau Gofal Plant Cofrestredig yn eich ardal chi drwy wefan AGC: https://arolygiaethgofal.cymru/dod-o-hyd-i-wasanaeth-gofal





| | Lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae wedi cofrestru gydag AGC | Gofal Plant anghofrestredig |
|---|---|---|
| Mynediad at gymorth ariannol drwy gynlluniau'r Llywodraeth | ✓ | ✗ |
| Cydymffurfiad â'r cymarebau lleiafswm oedolyn: plentyn rhagnodedig | ✓ | ✗ |
| Sicrwydd bod gan yr holl staff wiriadau GDG dilys a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion hyfforddi a chymwysterau | ✓ | ✗ |
| Hyder y cynigir amgylchedd chwarae diogel, o ansawdd, sy'n cwrdd â gofynion y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | ✓ | ✗ |
| Y gallu i gynnig amserau agor sy'n ateb anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio | ✓ | ✗ |
| Y gallu i ddefnyddio Adroddiadau Archwilio AGC i wneud dewis gwybodus am opsiwn gofal plant | ✓ | ✗ |
| Cedwir at y polisïau a gweithdrefnau | ✓ | ✗ |
| Arolygiadau dirybudd gan AGC | ✓ | ✗ |

# 2 Astudiaethau Achos yn arddangos buddion Gofal Plant Cofrestredig

## CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUB



Clwb Gwyliau Oak Hill, Casnewydd.

Ysgol arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol yw Ysgol Bryn Derw; y mae'n addysgu plant a phobl ifanc 4-19 blwydd oed sydd ag awtistiaeth ac anawsterau dysgu cysylltiedig, yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol wedi bod yn gefnogaeth fawr i'r plant a'r bobl ifanc ers ei hagor ym Medi 2017 ac maent wedi cael eu harchwiliad cyntaf gan Estyn, a'r canlyniadau, 'Rhagorol'.

Yn 2019, dechreuwyd ar y cyfathrebu rhwng yr ysgol a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ynglŷn â datblygu gofal plant ar y safle. Er y cymerodd beth amser i sefydlu pa strwythur rheoli a fyddai fwyaf addas, gweithiodd y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Busnesau Gofal Plant gyda'r ysgol a'r llywodraethwyr i gefnogi ffordd ymlaen.

OAK HILL ASD CHILDCARE

Fe wnaeth ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn yr ysgol wneud yn glir yr angen am Ofal Plant Gwyliau. Er bod nifer o Glybiau gwyliau ar draws y sir sy'n gynhwysol ac sy'n anelu at fod yn hygyrch i'r holl blant, mae gan y plant sy'n mynychu'r ysgol hon anghenion cymhleth, ac mewn achos o'r fath mae angen cefnogaeth ychwanegol ac arbenigol, a dewis y rheini/gofalwyr oedd i'r gofal hyn gael ei ddarparu gan oedolion cyfarwydd mewn amgylchfyd cyfarwydd.

Yn nes ymlaen ym mlwyddyn ariannol 2019/20 financial year sefydlwyd pwyllgor, yn cynnwys aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr i gefnogi cydweithredu â'r ysgol. Mae'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant wedi gweithio'n agos â'r pwyllgor yma, gan gyflenwi sgiliau busnes pwrpasol drwy gydol y Pandemig, yn cynnwys sesiynau 'dod o hyd i'r arian' er mwyn dod o hyd i ariannu addas i gefnogi cynaliadwyedd, monitro, cadw cofnodion, datblygu polisïau a gweithdrefnau, marchnata, cynllunio busnes a recriwtio staff, a rhoi hyn ar waith. Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu cyflenwi ar adegau sydd wedi bod yn gyfleus i'r pwyllgor, y tu allan i'r diwrnod 9-5pm yn rheolaidd, gan arddangos yr hyblygrwydd a ddangosir a sut y mae Clybiau Plant Cymru









Kids' Clubs yn frwdfrydig y tu hwnt ynghylch ateb anghenion y sector yr ydym yn ei gefnogi.

Yng nghanol y Pandemig yn Awst 2020, cefnogwyd y Clwb i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol er mwyn sicrhau bod atebolrwydd aelodau'r pwyllgor wedi'i ddiogelu. Yn dilyn cefnogaeth sylweddol mewn datblygu polisi, ennill dealltwriaeth o'r rolau a chyfrifoldebau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig gan y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant; a sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n adlewyrchu anghenion ychwanegol y plant a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, cyflwynwyd cais i gofrestru'r gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Cynhaliodd Clwb Gwyliau Oak Hill sesiwn peilot (anghofrestredig) yn ystod mis Hydref 2020, a gafodd dderbyniad y tu hwnt o dda gan y plant a'r rheini/gofalwyr a 100% yn adrodd y byddent yn archebu lle yno i'w plentyn eto; 100% hefyd yn adrodd bod eu plentyn yn cael eu cefnogi'n dda. Llwyddwyd i gofrestru gydag AGC yng Ngwanwyn 2021, a olygodd fod hyd at 16 o blant ag anghenion cymhleth yng Nghasnewydd, fesul sesiwn, yn awr yn gallu cyrchu gofal plant o ansawdd, cofrestredig, gyda ffioedd fforddiadwy i rieni/gofalwyr sydd yn awr yn gallu cyrchu cefnogaeth ariannol tuag at gostau gofal plant.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cael ei gefnogi gan y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant i ddatblygu strategaeth codi arian i gynllunio cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r gost ychwanegol a ysgwyddir drwy gymarebau staff uwch ac adnoddau arbenigol yn effeithio ar ffioedd y rhiant am ofal plant.

# Clwb Mes Bach, Ceredigion.



Cofrestrodd Clwb Mes Bach gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) dros 6 blynedd yn ôl. Mae'n darparu gofal plant i hyd at 44 o blant o alluoedd cymysg. Mae'r Clwb yn cynnig y Cynnig Gofal Plant 30-awr yn ei Glwb Ôl-ysgol (COY) a'i Glwb Gwyliau (CG) sydd nesaf at Ysgol Comins Coch.

Mae manteision cofrestru gydag AGC yn glir i blant, teuluoedd a rheolwyr ein lleoliad. Cefais fy archwiliad cyntaf ychydig wedi i mi gymryd drosodd fel rheolwr Clwb Mes Bach yn 2018. Roedd yn frawychus, fedra i ddim gwadu, ond

fe wnaeth y profiad wreiddio'r hyn a ddysgais o'm cyfnod sefydlu diweddar, a rhoi i mi'r arfau sy'n ofynnol i wneud newidiadau yn gyflym er lles y plant a'r staff sydd yn fy ngofal.

O ganlyniad i'r archwiliad cyntaf hwnnw, gwyddem yn union beth roeddem yn ei wneud yn dda ac ym mhle y gallem wneud newidiadau i fod hyd yn oed yn well wrth symud ymlaen. O ganlyniad fe wnaethom ddiweddaru'r ffeiliau, y polisïau a'r gweithdrefnau ac roeddem yn gallu rhoi ar waith yr adborth a roddwyd er mwyn gwella ein gwasanaeth.

Mae cofrestru hefyd wedi ein galluogi i elwa o Ofal Plant Di-dreth a thaliadau'r Cynnig Gofal Plant i gefnogi teuluoedd sy'n cyrchu ein gwasanaethau gofal plant. Mae gennym 5 o blant yn ein clwb gwyliau ar hyn o bryd a 6 o blant yn ein clwb ôl-ysgol yn cyrchu'r cyfleoedd ariannu yma.

Does dim amheuaeth i'r ailagor wedi'r pandemig fod yn amser anodd i'r lleoliad, a chyda rhieni'n gweithio o gartref gwelsom fod y niferoedd yn llawer is na chyn y pandemig; rydym yn sicr na fyddem, heb ein statws o fod wedi ein cofrestru ag AGC, ac felly'r gallu i gynnig i deuluoedd leoedd gofal plant wedi'u cymorthdalu, wedi gallu cynyddu ein niferoedd mor gyflym, a byddai cynaliadwyedd ein clwb wedi parhau'n bryder' - Rhian Pugh / Clwb Mes Bach, Ceredigion.

Cafodd y lleoliad nifer o sesiynau cefnogi busnes gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gefnogi cynllunio'r busnes, yr iaith Gymraeg, gwneud cais am ariannu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn unol ag arweiniad diweddaraf y llywodraeth, yn enwedig pan agorodd y lleoliad yn ystod y pandemig yn ystod haf 2021. Hefyd fe wnaeth y staff fynychu gweminarau ar ragfynegi'r llif arian a chael hyd i gronfeydd ariannu yn y gyfres "Arian, Arian, arian" o weminarau.

***'Mae wedi bod yn wych gweithio gyda chi. Diolch am eich holl gefnogaeth'.***

# BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Helpu elusen gyda chefnogaeth gyfansoddiadol i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol.

Mae sefydliad sy'n aelod o Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi penodi Bwrdd yr Ymddiriedolwyr newydd yn ddiweddar, ychydig cyn yr achos o Covid-19 a'r staff presennol, eu trosglwyddo o dan TUPE yn cadw eu statws cyflogaeth flaenorol.

Yn ystod y cyfnod cloi cyntaf, roedd yr Ymddiriedolwyr yn ei chael anodd cael gafael ar gymorth cyllid ar gyfer staff oherwydd heriau cytundebol ac fe wnaethant estyn allan i Flynyddoedd Cynnar Cymru i gefnogi. Trwy weithio ar y cyd â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a Thîm Llywodraethu Blynyddoedd Cynnar Cymru, cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur sefydliadol.

Cynigiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru 12 cyfarfod rhithwir a chefnogodd hyn gyda dros 60 o alwadau ffôn a mwy na 100 o negeseuon e-bost i helpu'r Ymddiriedolwyr i ddeall gwerth dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol. Mae'r statws hwn, ochr yn ochr â'r statws



gofal plant cofrestredig gyda AGC, yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei reoli'n gadarn a bod y rhwymedigaethau y mae Ymddiriedolwyr yn agored iddynt yn gyfyngedig. Trwy ein buddion i aelodau, roeddem yn gallu cynnig cefnogaeth bwrpasol, AD a chyngor cyfreithiol a chefnogi'r lleoliad gyda chydymffurfiaeth.

Fel rhan o'r broses CIO cwblhawyd cofrestriad a datganiad gwasanaeth wedi'i ddiweddaru, cyhoeddwyd contractau cyflogaeth wedi'u diweddaru, a datryswyd rhai materion cytundebol heriol yn gyfeillgar gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr newydd yn dilyn cymorth helaeth gan Dîm Llywodraethu Blynyddoedd Cynnar Cymru.



Nawr yn gweithredu fel lleoliad CIO sy'n darparu gofal plant cofrestredig i lawer mwy o deuluoedd yn eu cymuned; mae'r lleoliad yn mynd o nerth i nerth. Fel sefydliad ymbarél gosod gofal plant, mae gan Flynyddoedd Cynnar Cymru brofiad o gefnogi Byrddau Ymddiriedolwyr newydd i gofrestru gyda AGC a chefnogi i nodi'r strwythur llywodraethu gorau i helpu i sefydlu lleoliad gofal plant cryf, cynaliadwy i deuluoedd ei ddefnyddio. Rydym yn eiriol dros gofrestru'r lleoliad, gan roi'r hyder i rieni bod mynychu lleoliad gofal plant cofrestredig yn cynnig gan gynnwys sicrwydd bod staff wedi'u hyfforddi'n llawn, bod yr holl wiriadau ar waith, a'u bod hefyd yn cael eu cyflogi'n deg gan eu sefydliad. Y sicrwydd hyn, a'r wybodaeth bod statws CIO yn amddiffyn rhwymedigaethau Ymddiriedolwyr sy'n cynnig hyder i'r rhieni bod y lleoliad gofal plant yn ddewis da i'w plentyn / plant.

***'Cefais gyfarfod arall gyda Sue a Elaine ddoe a hoffem gymryd y cyfle hwn i anfon fy niolch am eu holl gefnogaeth. Mae Sue wedi bod yn anhygoel, gan roi'r llyw a'r cyngor yr oedd eu hangen arnom yn fawr iawn ac mae Elaine wedi gwneud ei gwaith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi hyd yn oed weithio y tu allan i oriau i ffitio o gwmpas fy ymrwymiadau gwaith'. (Cadeirydd yr Ymddiriedolwr).***

## Gweithredu gofal plant llwyddiannus ar safle ysgol.

Yn hydref 2019, cysylltodd dirprwy bennaeth â Blynyddoedd Cynnar Cymru a oedd am sicrhau bod y gofal plant sy'n gweithredu ar safle'r ysgol yn awyddus i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithredu gydag arfer gorau. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi ariannu aelodaeth Blynyddoedd Cynnar Cymru ar gyfer y lleoliad fel y byddent yn gallu cael gafael ar gefnogaeth sefydliad ymbarél gan bartneriaeth Cwlwm. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r ysgol a Blynyddoedd Cynnar Cymru.

### Trafodwyd pob maes cymorth busnes, gan gynnwys;

- Buddion cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Cymwysterau a hyfforddiant staff
- Rheolaeth ariannol lleoliad gofal plant
- Hunanasesiad Pwrpas Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cynllunio busnes
- Gwiriadau DBS
- … a llawer mwy



Roedd y dirprwy bennaeth yn ddiolchgar iawn i dderbyn y wybodaeth a gallai weld y buddion o gael darpariaeth gofrestredig AGC o safbwynt yr ysgol a'r rhieni. Gan weithio gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru, llwyddodd y dirprwy bennaeth fel unigolyn i gofrestru'r lleoliad gyda AGC yn llwyddiannus, ac yn ddiweddarach, llwyddodd i wneud cais am a derbyn amrywiol geisiadau grant o fwy na £9,000, gan gynnal y ddarpariaeth trwy heriau'r cloeon Covid-19. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol oherwydd fel lleoliad gofal plant cofrestredig, roedd yn haws sicrhau cyllidwyr bod y lleoliad yn cael ei reoli gyda diwydrwydd dyladwy i'r holl safonau proffesiynol sy'n gysylltiedig â gofal plant.

Mae hyn wedi cychwyn perthynas lwyddiannus rhwng yr ysgol, y lleoliad gofal plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru gyda chefnogaeth bellach yn cael ei darparu gan Flynyddoedd Cynnar Cymru pan recriwtiodd y lleoliad fwy o staff i ymestyn eu niferoedd. Roedd angen hyn i barhau i weithredu'n ddiogel o dan ddarparu lleoliad cofrestredig, gan gynnal cymarebau staff i oedolion yn unol â'r Isafswm Safonau Cenedlaethol. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi hyder i rieni ddefnyddio'r lleoliad, gan wybod bod eu plant yn derbyn gofal plant rheoledig o ansawdd uchel.

Wrth i'r lleoliad barhau i ffynnu a darparu cefnogaeth bwysig i deuluoedd sy'n gweithio, trwy gynnig darpariaeth gofal plant ar safle'r ysgol, maent wedi recriwtio rheolwr lleoliad yn ddiweddar i weithio ochr yn ochr â'r dirprwy bennaeth i reoli'r lleoliad. Maent hefyd wedi recriwtio pwyllgor rheoli gwirfoddolwyr yn llwyddiannus ac wedi cwblhau cofrestriad statws Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau. Roedd y dirprwy bennaeth yn ddiolchgar i Flynyddoedd Cynnar Cymru am yr arwyddbyst, y gefnogaeth a'r arbenigedd gan eu bod yn dod trwy lwybr addysgu roedd y naws a'r amrywiol gyfansoddiadau sydd ar gael i leoliadau gofal plant (gan gynnwys statws elusennol, ac amryw opsiynau busnes) yn ddryslyd. Roedd yn galonogol gwybod, fel darparwr gofal plant cofrestredig, bod systemau ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnig gofal plant o ansawdd uchel i set o safonau cenedlaethol.

***'Diolch. Gwerthfawrogi'r gwaith rydych chi'n ei wneud. Maen nhw [y staff lleoli a'r pwyllgor rheoli] wedi gofyn i'w diolch gael ei drosglwyddo i chi'. (Dirprwy Bennaeth)***

# Mudiad Meithrin

## Cylch Meithrin C yn ehangu gwasanaethau and yn cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC).







Roedd Cylch Meithrin C yn cynnig gofal sesiynol o dan ddwy awr y dydd am nad oedd y cylch wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AG). Er roedd 12 o blant yn mynychu'r cylch yn ddyddiol, roedd llefydd gwag ganddynt ac er ymdrechion staff a'r pwyllgor i ddenu plant newydd, nid oedd modd denu plant newydd.

Fe benderfynodd pwyllgor y cylch gynnal  holiadur i fesur gofynion y gymuned ac anghenion gofal pant rhieni. Dangosodd data'r holiadur bod rhieni'r ardal awydd gofal hirach er mwyn iddynt fedri weithio a bod cost gofal plant yn dylanwadu are u penderfyniadau am fod gofal plant yn ddrud.



Penderfynodd y pwyllgor bod angen ehangu gwasanaeth y Cylch i gynnig amrywiaeth o wasanaethau oedd yn cwrdd â gofynion rhieni a denu mwy o blant i'r Cylch Meithrin.  Er mwyn gwneud hyn, roedd rhaid iddyn nhw gofrestru gydag AGC.

Cafwyd cefnogaeth ddwys gan Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin I gwblhau'r cais cofrestru a chofrestrwyd y cylch ymhen 3 mis.

Yn dilyn y cofrestriad llwyddiannus, cysylltodd y pwyllgor â'r Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o gynnig gwasanaeth Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 flwydd oed, a chofrestrwyd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a gyda chefnogaeth y Swyddog Cefnogi, cynlluniwyd gofal cofleidiol rhwng yr Ysgol Gymraeg lleol oedd yn gallu casglu a thywys plant i'r ysgol/ Cylch.

Ehangodd y cylch ei wasanaethau gan gynnig sesiynau gofal yn y bore a gofal; cofleidiol yn y prynhawn oedd yn cynnig oriau hirach o ofal plant a hyblygrwydd i rieni. O ganlyniad o gofrestru gyda AGC a bod yn ddarparwr Dechrau'n Deg I blant 2 oed a chynnig hyd at 30 awr o ofal am ddim i blant 3 oed trwy'r Cynnig Gofal Plant, roedd costau gofal plant yn fforddiadwy ac yn ddeniadol i ddarpar rieni. Bellach mae 19 o blant yn mynychu'r Cylch Meithrin ac mae gan rieni ddewis o ofal plant hyblyg fforddiadwy o safon.

# Y buddion i Gylchoedd Meithrin o gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Roedd yr awdurdod lleol yn awyddus i ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg ac Addysg o fewn y sir.  Cynhaliwyd holiadur ymysg y sector Gofal Plant a Gwaith Chwarae i fesur pa ddarpariaethau oedd yn awyddus i ddarparu'r gwasanaethau. Bu cryn ddiddordeb ar draws y sir, ond roedd rhaid i'r ddarpariaeth fod yn gofrestredig ag AGC ac felly'n cyfyngu nifer o leoliadau rhag ehangu.

Roedd y Cylchoedd Meithrin llwyddiannus wedi ehangu'u gwasanaethau drwy ddarparu gofal Dechrau'n Deg ac Addysg 3 oed ac o ganlyniad wedi diogelu incwm sylweddol oedd yn cyfrannu at gynaladwyedd y cylch. Roedd hefyd cyfleodd i ymgeisio am grantiau amrywiol i brynu adnoddau ac offer Iechyd a Diogelwch.



Roedd bod yn gofrestredig gydag AGC yn cynnig ffydd a sicrwydd i rieni bod y cylch yn cael ei reoleiddio, ei fod yn cwrdd â'r Safonau Gofynnol a'r Rheoliadau Cenedlaethol a bod y cylch o safon. Rhoddwyd ffydd i rieni wrth ddewis gofal plant drwy rannu  adroddiad arolwg diwethaf  y cylch a'r modd i rieni gael mynediad at wybodaeth y cylch ar lein. Denwyd partneriaid eraill i gydweithio â'r cylch ar sail hynny hefyd oedd yn cyfoethogi gwasanaethau trwy ddarparu sesiynau i'r teulu.

Roedd bod yn gofrestredig hefyd yn golygu bod mwy o gyfleoedd i ddenu nawdd a grantiau gan fod cofrestru'n brawf o safon a chydymffurfiaeth â gofynion strwythurau cyfreithiol yn unol â chanllawiau AGC (a'r Comisiwn Elusennau hefyd yn cadarnhau hynny).

Pan oedd y Cylch yn paratoi at Safonau Serennog (cynllun ansawdd Mudiad Meithrin) roedd y cylch wedi bodloni nifer o'r gofynion o flaen llaw o ganlyniad i gydymffurfio a safonau a rheoliadau AGC.



# NDNA Cymru

## Meithrinfa Dydd Sparkles.




Mae Meithrinfa Dydd Sparkles yn Wrecsam yn gallu gofalu am hyd at 76 o blant pob dydd rhwng 3 mis – 11 mlwydd oed. Mae'n lleoliad Dechrau'n Deg ac yn gallu cynnig lleoliadau wedi eu hariannu drwy'r Cynnig Gofal Plant. Mae'r feithrinfa yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol ac yn darparu gofal plant fforddiadwy i deuluoedd. Mae wedi ei gofrestru gyda Arolygaeth Gofal Cymru (AGC).

Fel darparwr gofal cofrestredig rhaid i'r feithrinfa gadw at gymarebau staff i blant.  Mae 16 aelod o staff yn y lleoliad, i gyda wedi cwblhau gwiriadau DBS manwl er mwyn sicrhau eu haddasrwydd i weithio gyda phlant.  Mae'r rhan fwyaf o staff wedi cymhwyso yn llawn i lefel goruchwylio (lefel 3), mae dau aelod o staff ar hyn o bryd yn gweithio tuag at tuag at gymhwystrau galwedigaethol llawn. Golyga hyn bod gan bawb yn y feithrinfa wybodaeth gadarn am ddabtlygiad plant yn ogystal â phrofiad ymarferol o ofalu am blant.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol mewn Cymorth Cyntaf Pediatreg, Diogelu, a Hylendid Bwyd. Mae staff y feithrinfa yn diweddaru'r hyfforddiant hwn bob tair blynedd i gydymffurfio â rheoliadau AGC fel bod rhieni'n dawel eu meddwl bod gan y bobl sy'n gofalu am eu plant y sgiliau angenrheidiol.

Mae Sparkles yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan AGC ac Estyn. Mae'r archwiliadau yma yn rhai trylwyr iawn, gydag arolygwyr yn treulio 4 i 5 awr yn y feithrinfa i sicrhau bod y feithrinfa'n cydymffurfio â'r safonau uchel y mae AGC yn eu disgwyl ac sy'n cael eu nodi yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r Adroddiad Arolygu ar gael i'w ddarllen ar-lein ac yn cael ei rannu gyda rhieni. Mae'r feithrinfa'n defnyddio'r adroddiad ac adborth gan rieni i gynllunio at y dyfodol.

Mae gan reolwyr yn y feithrinfa berthynas dda iawn â AGC ac mae hyn wedi golygu eu bod wedi cael cefnogaeth arbennig yn ystod y pandemig. Mae AGC wedi cadw mewn cysylltiad drwy wneud galwadau rheolaidd a galwadau monitro ac wedi rhannu gwybodaeth bwysig trwy gylchlythyrau ac e-byst. Maent wedi cefnogi'r sector trwy gefnogi polisi Llywodraeth Cymru i lacio rhai o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bod yn hyblyg o amgylch hyfforddiant wyneb yn wyneb gorfodol. Mae hyn wedi caniatáu i'r feithrinfa ganolbwyntio ar gefnogi'r plant a'r teuluoedd yn ystod cyfnod anodd.



Fel darparwr cofrestredig mae'r feithrinfa wedi gallu cymryd rhan mewn llawer o gynlluniau sydd gan yr Awdurdod Lleol. Mae'n darparu Addysg Gynnar o ansawdd uchel ac yn darparu lleoedd i blant bregus a'r rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Maent hefyd wedi cymryd rhan yng Nghynllun Enfys Wrecsam. Mae bod yn rhan werthfawr o'r gymuned leol yn bwysig i'r feithrinfa ac maent wedi cefnogi teuluoedd lleol trwy fanciau bwyd a phecynnau gweithgaredd.

Maent hefyd wedi llwyddo i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol sydd dim ond ar gael i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda AGC. Mae grantiau wedi eu galluogi i wella ansawdd eu hadeiladau trwy ailosod ffenestri, gosod canopi a 'thŷ bach' newydd i wella eu darpariaeth awyr agored. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig gan fod plant wedi gallu treulio mwy o amser yn yr awyr agored.

Mae Rheolwr Sparkles yn glir ynghylch buddion cofrestru gyda AGC.  Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac arolygiadau rheolaidd yn darparu sylfaen gadarn y gall y feithrinfa adeiladu arni ac mae'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn aml yn mynd ymhell y tu hwnt i ofynion AGC. Mae rhieni lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant gan wybod bod eu plant yn ddiogel yn y feithrinfa ac yn elwa o amgylchedd proffesiynol, wedi'i reoleiddio'n dda, yn ysgogol ac yn ofalgar.

## The Wendy House, Sir y Fflint.

Roedd bod yn gofrestredig gyda AGC wedi bod yn hanfodol i Feithrinfa Wendy House yn Sir y Fflint pan darodd Covid ym mis Mawrth 0f 2020. Roeddent yn cydnabod y byddai buddion bod yn ddarparwr cofrestredig yn sicrhau diogelwch a lles eu staff ac yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar y plant yn eu gofal.



Mae'r Feithrinfa'n aelod o NDNA Cymru sy'n cefnogi meithrinfeydd i fodloni'r safonau sy'n ofynnol gan ddarparwr cofrestredig gyda AGC.  Mae'r NDNA yn darparu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau eraill drafft, a diweddarwyd pob un ohonynt i gymryd i ystyriaeth y sefyllfa newydd o ganlyniad i Covid. Mae'r rhain wedi helpu'r feithrinfa i gynnal gwasanaeth o ansawdd uchel yn ystod yr argyfwng.

Dechreuon nhw trwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â sut roedd y feithrinfa'n mynd i symud ymlaen yn ystod yr argyfwng. Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau angenrheidiol




a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig, rhaid i staff y feithrinfa feddu ar gymwysterau proffesiynol addas a chael DBS cyfredol. Roedd hyn yn golygu bod gan y feithrinfa weithlu gyda'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â'r argyfwng. Roedd y staff unigol yn adnabod eu hystafelloedd a'r plant roeddent yn gofalu amdanynt ynghyd â gwybodaeth broffesiynol am ddatblygiad plant. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth honno gallent sicrhau y byddai'r mesurau amddiffynnol angenrheidiol yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y plant.

Er mwyn cefnogi'r sector gofal plant a chwarae mynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan Covid-19 a chaniatáu darpariaethau i gynnig gofal plant allweddol, ymlaciodd Llywodraeth Cymru rhai safonau dros dro. Caniatoadd hyn i leoliadau fod yn fwy hyblyg gyda'r staff oedd ar gael iddynt. Cydnabu'r feithrinfa yn gyflym fod angen o leiaf dau aelod o staff ym mhob ystafell. Byddai hyn yn eu galluogi i sicrhau bod yn naill aelod o staff a'r llall yn cael seibiant yn ogystal â delio â mân argyfyngau heb i aelod arall o staff orfod cymysgu yn yr un 'swigen'. Yn bwysicaf oll, sicrhaodd fod gan bob aelod o staff gefnogaeth proffesiynol ac yn emosiynol trwy gydol y dydd.

Fel darparwr cofrestredig AGC, archwiliwyd y feithrinfa yn rheolaidd cyn y pandemig ac mae'r feithrinfa eisoes yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg yn gyfredol.  Roedd cael fframwaith mor gryf ar waith yn rhoi hyder iddynt edrych ar bob agwedd ar y gwasanaeth a'r gofal yr oeddent yn ei ddarparu i deuluoedd ac addasu i gadw pawb yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn feithrinfa fawr, bwrpasol gyda phedair ystafell chwarae, pob un â'i ystafell haul a'i gardd ei hun. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws cadw plant mewn grwpiau bach cyson.

Yn y pen draw, blaenoriaeth y Feithrinfa oedd cadw'r plant yn ei gofal a'u teuluoedd yn ddiogel. Trwy ddefnyddio staff yn ofalus roeddent yn gallu lleihau'r risgiau a thawelu meddwl y teuluoedd. Er mwyn bod yn ddarparwr cofrestredig rhaid i staff, yn unol â rheoliadau, dderbyn hyfforddiant diweddar rheolaidd mewn cymorth cyntaf pediatreg, diogelu a hylendid bwyd ac roedd hyn yn rhoi sicrwydd pellach i rieni bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol i ddelio â'r heriau a godwyd gan y pandemig.

Roedd bod wedi cofrestru gyda AGC yn sicrhau bod y feithrinfa hon yn gallu parhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel iawn i blant a theuluoedd drwy gydol y pandemig. Roedd y newidiadau wnaed i'r gwasanaeth yn cael eu rheoli a'u cefnogi'n ofalus gan y safonau uchel a ddisgwylir eisoes gan pob darparwr cofrestredig. Roedd AGC yn gallu cynnig cefnogaeth ac arweiniad drwy gydol yr amser a gallai rhieni weld buddion meithrinfa a reoleiddir yn dda ar adeg mor anodd.

# PACEY Cymru

pacey | CYMRU



## Helpu pobl i gymryd eu camau cyntaf at ddod yn warchodwr plant.

Mae Kankshi yn warchodwr plant a gofrestrwyd yn ddiweddar, ac aelod PACEY. Mae hi wedi derbyn cefnogaeth gan ei Awdurdod Lleol, Busnes Cymru a PACEY Cymru trwy gydol ei thaith i ddod yn warchodwr plant cofrestredig yng Nghymru.

Gallai PACEY Cymru roi dealltwriaeth dda i Kankshi o beth yw gwarchodwr plant a beth maen nhw'n ei wneud trwy'r sesiwn briffio cychwynnol trylwyr, a chwrs hyfforddi â chefnogaeth dda, a helpodd y ddau i baratoi Kankshi i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru AGC ac wrth ddod yn warchodwr plant. Defnyddiodd Kankshi hefyd y fforymau cymorth cyn cofrestru y mae PACEY Cymru yn cynnal, a oedd yn caniatáu iddi rwydweithio gyda gwarchodwyr plant eraill a rhannu gwybodaeth a syniadau gyda nhw.

Trwy gyllid Awdurdod Lleol, gallai Kankshi gyrchu cefnogaeth ffôn ac e-bost gyda Kim Chatterton, un o gydlynwyr gwarchod plant PACEY Cymru. Roedd y gefnogaeth hon yn hynod werthfawr i Kankshi, yn enwedig wrth gwblhau ei chais AGC, a gyda'r anawsterau a gafodd wrth gael geirda meddygol lle'r oedd Kim yn gallu cyfeirio Kankshi at y Canllaw Cofrestru Wedi'i Addasu ar gyfer ymgeiswyr a darparwyr mewn ymateb i COVID-19. Nododd Kankshi "*Mae Kim wedi bod mor gymwynasgar drwyddo draw, dwi'n cysylltu â hi trwy e-bost gydag unrhyw ymholiadau sydd gen i a byddai'n derbyn ateb cyn gynted â phosib...mae hi wedi bod mor gefnogol*". Fe wnaeth Kim hefyd cyfeirio Kankshi at Fusnes Cymru, lle llwyddodd i gael gafael ar grant bach tuag at ddiogelwch yn ei lleoliad.

Ar ôl cofrestru, roedd Kankshi yn gyffrous i ddechrau gwarchod plant. Tanysgrifiodd i'r aelodaeth PACEY a phrynodd y Pecyn Offer PACEY er mwyn cefnogi ei busnes newydd a sicrhau ei fod yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau'r llywodraeth a newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Mae aelodaeth Kankshi wedi golygu ei bod hi'n gallu cyrchu toreth o wybodaeth, DPP, cefnogaeth gyfreithiol a busnes a mynediad at gymorth rhwng cymheiriaid un-i-un o arbenigwyr gwarchod plant. Gwnaeth cynnwys y pecyn offer argraff fawr arni hefyd. Yn benodol, credodd bod y contractau'n gymhwysfawr ac yn hawdd eu defnyddio.

Mae Kankshi yn meddwl bod ei haelodaeth PACEY yn rhoi mynediad iddi i adnoddau a chefnogaeth gwych, a bod gwefan PACEY yn offer gwerthgawr yn ystod y proses gofrestru a thu hwnt. Mae PACEY Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf a lle bo angen, mae'n benodol i Gymru.

## Cymorth a hyfforddiant cyn cofrestru gwarchodwr plant o bell PACEY Cymru.



Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi atal mynediad at hyfforddiant a chymorth personol i'r rheini sydd am gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru. Fel ymateb, mae PACEY Cymru wedi addasu gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth cyn cofrestru o bell ar-lein drwy'r daith i gyd i unigolion sydd am ddod yn warchodwr plant cofrestredig.

Cam gyntaf tuag at ddod yn warchodwr plant cofrestredig yw mynychu Sesiwn Briffio, mae PACEY Cymru yn cynnig sesiynau briffio gweminar misol sydd wedi galluogi i'r rheini sy'n ystyried gyrfa fel gwarchodwr plant cofrestredig gyrchu gwybodaeth, gofyn cwestiynau ac archwilio eu diddordeb mewn bod yn warchodwr plant cofrestredig heb oedi. *"Roedd y sesiwn briffio ddoe yn ffantastig, atebodd gymaint o gwestiynau a oedd gen i. Mae hyn yn 100% i mi"* Lauren, gwarchodwr plant cofrestredig, Caerdydd.

Ar ôl y sesiwn briffio, y step nesaf yw cwblhau'r hyfforddiant cyn cofrestru sy'n cynnwys unedau 326 Cyflwyniad i Ofal Plant (IHC) yn y Cartref a 327 Paratoi ar gyfer ymarfer fel gwarchodwr plant (PCP). Mae PACEY Cymru yn cynnig opsiynau dysgu cyfunol ac ar-lein, sy'n cyfuno dysgu ar-lein gyda'r elfen o fod yn y dosbarth, y gellid ei addasu'n gyflym i daith ar-lein i ddysgwyr. Cynigiwyd sesiynau gweminar i'r rhai sy'n hanner ffordd drwy'r cwrs cyfunol i ddarparu cyfleoedd trafodaethau grŵp a fyddai wedi digwydd yn bersonol. Roedd un o'r dysgwyr yr oedd hyn yn effeithio arno yn dweud *"Bu'r DU yn cael ei tharo gyda chyfnod glo o ganlyniad i COVID-19, cafodd newidiadau i hyfforddiant eu gweithredu, a oedd yn golygu bod pob un ohonom yn dod yn llawer mwy llythrennog a deallus mewn TG!... Yn dilyn y cwrs hwn, roeddem wedi derbyn yr offer cywir i gyrchu hyfforddiant drwy'r gwefan er mwyn cwblhau'r cwrs yn llawn, ynghyd â chyrsiau hyfforddi byr ymhellach, a welais yn hynod fuddiol a gwybodus i helpu gyda'r yrfa newydd a ddewiswyd gennyf... Byddwn yn argymell yn llwyr i ymgeiswyr gyrchu PACEY i gael y deunydd hyfforddi a'r wybodaeth ynghylch cofrestru'n llawn fel gwarchodwr plant."* Rhiannon, gwarchodwr, Sir Ddinbych.

Yn ogystal â chwblhau'r unedau hyfforddi cyn cofrestru, mae angen i'r rhai sydd am gofrestru fel gwarchodwr plant baratoi ystod o ddogfennau hefyd, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, a chwblhau'r ffurflen gais AGC ar-lein. Symudodd PACEY Cymru i gynnig cyfres o dri gweminarau ar raglen dreigl i gynnig cymorth a chanllawiau gyda rhain. Mae'r gweminarau hyn wedi derbyn croeso brwd ag adborth yn cynnwys *"Mae'r sesiwn hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn, diolch!"* Gan gydnabod pwysigrwydd rhwydweithio a chymorth cyfoedion, ceisiodd PACEY Cymru ymdrin â 'r diffyg cyfle i gwrdd â gwarchodwyr cyn cofrestru eraill yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Mae fforwm cymorth cyn cofrestru misol wedi'i sefydlu i ddarparu cyfle hamddenol ac

anffurfiol i gysylltu ag eraill, rhannu syniadau, gosod testunau trafod a gofyn cwestiynau. Mae adborth wedi cynnwys "*hoffwn ddiolch i'r merched am y fforwm rhithwir PACEY heno. Roedd yn hamddenol a defnyddiol iawn. Dwi'n edrych ymlaen at yr un nesaf.*" Becky, gwarchodwr plant cyn cofrestru, RCT. Mae fforwm cymorth ar gyfer gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru wedi cael derbyniad yr un mor dda, gydag adborth yn cynnwys "*Roedd yn ddefnyddiol iawn ac yn hanfodol i mi fel gwarchodwr plant newydd sydd wedi cael trafferth dod o hyd i gymorth yn lleol oherwydd COVID.*" Emma, gwarchodwr plant cofrestredig, Gwynedd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae partneriaid Cwlwm yn croesawu unrhyw drafodaethau ynghylch cynnwys yr astudiaethau achos hyn. Cysylltwch â'ch sefydliad ymbarél i gael mwy o wybodaeth.

pacey | CYMRU



# 3 Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol Newydd

O Haf 2022, mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru weithredu'n ddigidol!

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac yn cael ei roi ar brawf gan awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a rhieni.

## Beth yw goblygiadau hyn i ddarparwyr gofal plant?

Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant sy'n cynnig oriau o dan y Cynnig ar hyn o bryd, neu os ydych yn dymuno cychwyn gwneud hynny o Hydref 2022, tua dechrau 2022 bydd angen i chi gofrestru ar-lein â gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant i Gymru.



Bydd rhieni yn gwneud cais am y Cynnig ar-lein drwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol yn ystod haf 2022 yn barod i'w plentyn ddechrau manteisio arno ym mis Medi.

Mae adnodd Cwestiynau Cyffredin i ddarparwyr ar gael i'ch helpu.

Mae'r adnodd i'w weld ar https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-gwasanaeth-cenedlaethol-digidol a bydd yn cael ei ddiweddaru fel bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dderbyn.



## Bydd **manteision** y gwasanaeth newydd yn cynnwys:

- **un** gwasanaeth cenedlaethol syml y bydd holl awdurdodau lleol Cymru yn ei ddefnyddio, gan sicrhau bod rhieni a darparwyr gofal plant yn cael profiad cyson
- bydd ar gael drwy ffonau symudol, gliniaduron a llechi
- bydd yn gwbl ddwyieithog
- bydd data yn ddiogel
- bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud taliadau yn gyflym ac yn rheolaidd yn **uniongyrchol** i ddarparwyr gofal plant

**I gael rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant i Gymru ewch i:**
Y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Help gyda Chost Gofal Plant i Rieni

Gofal i blant 3 a 4 oed: canllawiau ar gyfer darparwyr | LLYW.CYMRU

**Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael gwybod sut i gofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant:**

Dod o hyd i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol

## Sgiliau digidol

I helpu darparwyr gofal plant i baratoi ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i lunio a recordio hyfforddiant i gynyddu hyder ynghylch gwasanaethau ar-lein a gwella sgiliau digidol.

Bydd y canllawiau fideo byr hyn, ar gyfer lefelau sylfaenol a chanolig, yn helpu i roi hwb i'ch gallu a sgiliau digidol. Mae'r pynciau'n amrywio o osod cyfeiriad e-bost a sicrhau diogelwch ar-lein i greu cyfrif ar Borth y Llywodraeth a chadw a lanlwytho dogfennau!

I ddefnyddio'r hyfforddiant ewch i: https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/sgiliau-digidol-hanfodol-ar-gyfer-darparwyr-gofal-plant/

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag AGC, Cwlwm a phartneriaid mewn awdurdodau lleol i hyrwyddo'r canllawiau a'r sesiynau hyfforddi fideo hyn.

## Defnyddio'r gwasanaeth newydd


Bydd canllawiau a hyfforddiant mwy penodol ar sut i ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar gael yn 2022, cyn cyflwyno'r gwasanaeth.

Os hoffech ragor o wybodaeth ar y prosiect digidol neu os hoffech gymryd rhan yn y gwaith o brofi'r gwasanaeth, cysylltwch â thîm prosiect Cynnig Gofal Plant digidol Llywodraeth Cymru ar: GofalPlant.Digidol@llyw.cymru



# 4 Canllawiau Iechyd Chyoeddus Cymru ar Reoli ac Atal Heintiau a'r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV)

Dylai lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae barhau i fod yn ymwybodol o'r cyngor a geir yng Nghanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Reoli ac Atal Heintiau, a'u rhoi ar waith. Mae'r cyngor yn y ddogfen hon yn cefnogi lleoliadau nid yn unig i atal COVID-19 rhag lledaenu, ond feirysau eraill ac afiechydon trosglwyddadwy.


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

HEALTH PROTECTION TEAM
Infection Prevention and Control Guidance (2019) for Childcare Settings (0-5 years) in Wales (Nurseries, Childminding and Playgroups)

Author:
Working Group to Review Health Protection Team Infection Prevention & Control Guidelines for Relevant Settings

Original Document Date: 09/10/2014
Version: 2 (Revised September 2019)

Publication/ Distribution:
- Public (Internet)
- NHS Wales (Intranet)
- Public Health Wales (Intranet)

Review Date: September 2020

Purpose and Summary of Document: This document aims to provide best practice guidance in relation to basic Infection Prevention and Control practice in all Childcare Settings (0-5 years) in Wales.

Superseding: Public Health Wales Infection Prevention and Control for Childcare Settings (0-5 years) (2014 v.1) Nurseries, Child Minders and Playgroups - All Wales Guidance

Mae llacio cyfyngiadau COVID yn ddiweddar yn golygu bod mwy o bobl a phlant yn cymysgu ac felly mae'r potensial i ddod i gysylltiad â nifer o feirysau wedi cynyddu. Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi pryder ynghylch y cynydd yn nifer yr achosion o RSV (feirws syncytiol anadlol) dros yr haf. Mae lleoliadau wedi dangos yn gyson eu gallu i weithredu camau glanhau a hylendid effeithiol er mwyn cadw lleoliadau'n ddiogel. Wrth i ni symud i'r gaeaf, cynghorir lleoliadau i barhau i fod yn wyliadwrus a glynu wrth gyfundrefnau glanhau.


Cynnydd mewn heintiau anadlol ymhlith plant yng Nghymru cyn y gaeaf

Cysylltwch â Ni

Newyddion Diweddaraf

# 5 Cymorth Ychwanegol – Dolenni Defnyddiol

Am fwy o wybodaeth am yr hyn y mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei wneud, ewch i: Hafan | Arolygiaeth Gofal Cymru

I gael cymorth, cefnogaeth a chyngor ar faterion amrywiol yn ymwneud â gofal plant a gwaith chwarae, ewch i Sector Gofal Plant, Gwaith Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru: Pwy yw pwy | LLYW.CYMRU

## Angen cymorth busnes?

Ewch i fwrw golwg dros y tudalennau gwe lle gallwch weld y gefnogaeth sydd ar gael ar **lefel genedlaethol** ac **yn lleol**.

Yma, byddwch yn gallu canfod **gwybodaeth, canllawiau a chefnogaeth** ar gyfer amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys:

- Cychwyn/Datblygu busnes
- Gofynion rheoleiddiol
- Cyflogaeth
- Hyfforddiant a chymwysterau
- Cyllid

Gallwch hefyd ddarllen **astudiaethau achos** ychwanegol yn dangos y cymorth busnes a roddwyd i amrywiaeth o ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae ledled Cymru.

## Cwlwm:

www.clybiauplantcymru.org

https://www.meithrin.cymru/

https://www.ndna.org.uk/

https://www.pacey.org.uk/

https://www.cwlwm.org.uk/

https://earlyyears.wales/

www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd, CF10 5NB
**Ffôn:** 029 2045 1242 E-bost: info@earlyyears.wales

**MUDIAD MEITHRIN**
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
NDNA Cymru, Office 3, Crown House, 11 Well Street, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AE
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**PACEY CYMRU**
Room G16, The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5EZ
**Ffôn:** 02920 351407 **E-bost:** paceycymru@pacey.org.uk